# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

**12. STRATEGAETH CYFALAF 2019-20** 2 - 24

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (Atodiadau A-C ynghlwm).

**ATODIAD A**

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau blaenorol wedi cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau nesaf ar droed.

3. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** |
| **Cynlluniau Newydd** | | | |
| Cynllun Rheoli Asedau i'w Ddyrannu | 11,728 | 7,535 | 6,610 |
| Atgyweirio Priffyrdd | 2,650 | 1,325 | 0 |
| Gofal Plant | 1,238 | 1,113 | 0 |
| Strategaeth Dai | 2,700 | 2,700 | 2,700 |
| | **18,316** | **12,673** | **9,310** |
| **Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoes ar y Rhaglen** | **16,675** | **6,129** | **0** |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **34,991** | **18,802** | **9,310** |

4. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| **ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** |
| **Cynlluniau Newydd** | | | |
| Darpariaeth Cyfalaf yn y Setliad | 7,995 | 7,535 | 6,610 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 2,563 | 2,438 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 7,758 | 2,700 | 2,700 |
| | **18,316** | **12,673** | **9,310** |
| **Cynlluniau Wedi eu Cymeradwyo - Eisoes ar y Rhaglen** | | | |
| Benthyca Arall | 1,393 | 777 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 8,753 | 525 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 98 | 750 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 265 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 1,435 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,731 | 4,077 | 0 |
| | **16,675** | **6,129** | **0** |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **34,991** | **18,802** | **9,310** |

5. Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen, yn unol â'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet yn fuan yn 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29.

6. Cymeradwywyd y drefn er mwyn sefydlu'r strategaeth nesaf gan y Cabinet ar 16 Ionawr 2018 ac yn ystod y misoedd yn dilyn gofynnwyd i holl aelodau'r Cyngor i flaenoriaethu'r cynlluniau a roddwyd ymlaen gan adrannau. Bydd adroddiad ar y cynlluniau manwl yn dod gerbron am gymeradwyaeth yn ddigon buan am y flwyddyn ariannol 2019/20.

7. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2019/20 i 2021/22, tra bydd y manylder ar y cynlluniau unigol yn cael ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd newydd.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 4 uchod.

**ATODIAD B**

**DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2019/20**

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LlC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.

2. Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

3. Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLIR yn flynyddol, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLIR. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

   - Ar gyfer cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLIR ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.

   - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLIR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLIR ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLIR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.

   - Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLIR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.

   - Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu had-dalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLlR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC). Mewn blynyddoedd ble nad oes ad-daliadau prifswm bydd y DLlR yn cael

ei bennu yn unol â pholisi DLlR yr asedau ariennir gan y benthyciad, gan gynnwys, ble'n addas, gohirio'r DLlR hyd y flwyddyn wedi'r asedau ddod yn weithredol.

4. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2019/20 yn destun ffi DLlR hyd nes 2020/21.

5. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2019, mae'r gyllideb ar gyfer DLlR wedi ei bennu fel a ganlyn:

| | **31.03.2019 Amcan GCC £m** | **2019/20 Amcan DLlR £m** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008 | 134.8 | 5.3 |
| Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008 | 39.6 | 2.0 |
| Prydlesau Cyllidol a Menter Cyllid Preifat | 3.2 | 0.3 |
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol** | **177.6** | **7.6** |

**ATODIAD C**

**Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2019/20**

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Rheolaeth Trysorlys yw'r rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac yn felly agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae'r adnabyddiaeth, monitro a rheolaeth risg ariannol llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyngor.

**1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Mawrth 2010 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

**1.3** Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen cyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Mae cynnydd y DU wrth negodi ei ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd a trefniadau masnachol y dyfodol yn parhau yn ddylanwad mawr ar strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor yn 2019/20.

Cynyddodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) mis Hydref o 2.4% blwyddyn/blwyddyn, ychydig yn is na'r rhagolygon consenswS a bron yn unol ag Adroddiad Chwyddiant Banc Lloegr. Dangosodd data marchnad lafur diweddaraf ar gyfer mis Hydref 2018 fod y gyfradd ddiweithdra wedi codi mymryn i 4.1%, tra bod y gyfradd mewn gwaith wedi cyrraedd ei phwynt uchaf ar gofnod, sef 75.7%. Roedd y gyfradd twf blynyddol cyfartalog 3 mis ar gyfer cyflog arferol h.y. ac eithrio bonws, yn 3.3% wrth i gyflogau barhau i godi'n raddol a thynnu rhywfaint ar chwyddiant cyffredinol. O ran gwir gyflogau, wedi'u haddasu i gyfrif am chwyddiant, gwelwyd twf o 1%, lefel sy'n debygol o gael ychydig iawn o effaith ar wariant defnyddwyr.

Roedd y cynnydd mewn twf GDP chwarterol o 0.4% yn Ch2 i 0.6% yn Ch3 yn ymwneud â ffactorau'n gysylltiedig â'r tywydd gan gynyddu yr hyn yr oedd aelwydydd yn ei ddefnyddio a gweithgareddau adeiladu yn ystod cyfnod yr haf yn dilyn gwendid yn gysylltiedig â'r tywydd yn ystod Ch1. Mae twf GDP blynyddol yn 1.5% ac yn parhau yn is na'r duedd. Wrth edrych i'r dyfodol, mae Banc Lloegr yn ei Adroddiad Chwyddiant ar gyfer mis Tachwedd, yn disgwyl i dwf GDP fod yn 1.75% ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod a ragwelir, cyn belled bod y broses o'r DU yn gadael yr UE yn un eithaf llyfn.

Yn dilyn penderfyniad Banc Lloegr i gynyddu'r Gyfradd Banc i 0.75% ym mis Awst, ni wnaed unrhyw newidiadau i bolisi ariannol ers hynny. Fodd bynnag, mae'r Banc yn disgwyl pe bai'r economi yn parhau i esblygu yn unol â'r hyn a ragwelodd ym mis Tachwedd, bydd angen cynyddu'r Gyfradd Banc ymhellach er mwyn i chwyddiant ddychwelyd i'w darged o 2%. Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn parhau i ategu mai graddol a chyfyngedig fyddai unrhyw gynnydd yn y dyfodol.

Tra mae twf UDA wedi arafu yn 2018, mae'r economi yn parhau i berfformio'n gryf. Parhaodd Cronfa Ffederal yr UD i dynhau drwy gydol 2018, gan wthio cyfraddau cyfredol i 2% - 2.25% cyfredol ym mis Medi. Mae marchnadoedd yn parhau i ddisgwyl un cynnydd arall i'r gyfradd ym mis Rhagfyr, ond mae llai o ddisgwyliad y bydd yna gynnydd pellach yn 2019, fel y disgwyliwyd yn flaenorol, wrth i bryderon am frwydrau masnach effeithio ar weithgarwch economaidd.

## 2.2 Rhagolygon credyd

Mae pedwar o grwpiau banc mawr y DU wedi gwahanu eu rhaniadau bancio manwerthu a buddsoddi i mewn i endidau cyfreithiol ar wahân o dan y ddeddfwriaeth diogelu. Bank of Scotland, Barclays Bank UK, HSBC UK Bank, Lloyds Bank, National Westminster Bank, Royal Bank of Scotland ac Ulster Bank yw'r banciau diogelu sydd nawr ond yn darparu gweithgareddau manwerthu banc risg isel. Barclays Bank, HSBC Bank, Lloyds Bank Corporate Markets a NatWest Markets yw'r banciau buddsoddi. Mae asiantaethau graddfeydd credyd wedi addasu graddfeydd y banciau yma gyda'r banciau diogel yn derbyn graddfeydd gwell na'r gwrthbartion yn gyffredinol.

Mae Banc Lloegr wedi cyhoeddi ei adroddiad diweddaraf ar brofion pwysau'r banc, gan ddangos fod pob endid a gafodd ei gynnwys yn y dadansoddiad wedi llwyddo yn y prawf â chymod fod rheolwyr wedi gweithredu lefelau o gamau gweithredu lliniaru cyfalaf a photensial. Nid oedd Banc Lloegr yn gofyn i unrhyw fanc godi cyfalaf ychwanegol.

Mae banciau Ewrop yn ystyried eu paratoad at Brexit gyda rhai yn edrych i greu is-gwmnïau DU er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i weithredu yma. Mae cryfder credyd y banciau newydd yn dal yn anhysbys, er bod y siawns o gefnogaeth gan y cwmni rhiant yn uchel os bydd ei angen o gwbl. Mae'r ansicrwydd oherwydd y trafodaethau hir rhwng y DU a'r UE yn pwyso ar credydrwydd banciau y DU ag Ewropeaidd gyda gweithrediadau sylweddol yn y ddau awdurdodaeth.

**2.3 Rhagolygon cyfraddau llog**

Yn dilyn cynyddu y cyfradd banc i 0.75% ym mis Awst 2018, mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose yn rhagweld dau godiad pellach o 0.25% yn ystod 2019 gan gynyddu cyfradd llog swyddogol y DU i 1.25%. Mae MPC Banc Lloegr wedi cadw eu disgwyliadau ar gyfer codiadau cyfradd araf a sefydlog dros gyfnod y rhagolwg. Mae'r MPC yn parhau gyda tuedd at bolisi ariannol tynnach ond yn anfodlon i wthio disgwyliadau rhy gryf. Mae Arlingclose yn credu bod aelodau'r MPC yn ystyried bod cyfraddau llog isel iawn yn creu problemau economaidd arall, a bydd Cyfradd Banc uwch yn arf polisi mwy effeithiol os yw risgiau negyddol Brexit yn crisialu a bydd angen torri'r gyfradd.

Mae amgylchedd economaidd y DU yn parhau i fod yn gymharol feddal, er gwaethaf data marchnad llafur cryf. Barn Arlingclose yw bod yr economi yn pl i wynebu rhagolwg heriol wrth adael yr Undeb Ewropeaidd a thwf y rhanbarth Ewro yn lleddfu. Tra bod y tybiaethau yn disgwyl bod bargen Brexit yn cael ei gytuno ar, a bod cytundeb ar drawsnewid a threfniadau masnachu'r dyfodol cyn y DU yn gadael y UE, mae'r posibilrwydd bydd Brexit 'dim bargen' yn dal i gysgodi gweithgareddau'r economi (ar amser ysgrifennu'r esboniad yma yng nghanol mis Rhagfyr). Fel y cyfryw, ystyrir bod risgiau ar ragolwg cyfradd llog yn bendant am i lawr.

Mae dychweliadau giltiau ac felly cyfraddau benthyciadau tymor hir wedi aros ar lefelau isel ond disgwylir symudiadau i fyny o'r lefelau cyfredol yn seiliedig ar dafluniad cyfradd llog Arlingclose, oherwydd cryfder economi'r US ag arweiniad ymlaen ar gyfraddau uwch yr ECB. Mae rhagolwg dychweliadau giltiau 10 mlynedd a 20 mlynedd yn aros o gwmpas 1.5% a 2% yn ôl ei trefn dros gyfnod rhagolwg y cyfraddau llog, er hynny, mae anweddolrwydd sy'n codi o ddigwyddiadau economaidd a gwleidyddol yn debygol i barhau i allu cynnig y cyfleoedd i fenthyg.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1***.*

**2.4** Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.88% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2019/20

## 3. Y Cyd-destun Lleol

**3.1** Ar 31 Rhagfyrd 2018, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £106.4m a £34m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn ***Atodiad B***. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg**

| | **31.3.18 Gwir £m** | **31.3.19 Amcan-gyfrif £m** | **31.3.20 Amcan-gyfrif £m** | **31.3.21 Amcan-gyfrif £m** | **31.3.22 Amcan-gyfrif £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **GCC** | **177.0** | **177.6** | **175.5** | **172.7** | **169.1** |
| Llai: Rhwymedigaethau arall * | (3.5) | (3.2) | (3.0) | (2.7) | (2.4) |
| **Benthyca GCC** | **173.5** | **174.4** | **172.5** | **170.0** | **166.7** |
| Llai: Benthyca allanol ** | (106.4) | (106.4) | (104.4) | (103.1) | (101.8) |
| **Benthyca mewnol** | **67.1** | **68.0** | **68.1** | **66.9** | **64.9** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (56.2) | (41.2) | (39.2) | (35.2) | (33.2) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (48.0) | (48.0) | (48.0) | (48.0) | (48.0) |
| **Buddsoddiadau** | **(37.1)** | **(21.2)** | **(19.1)** | **(16.3)** | **(16.3)** |

* ymrwymiadau MCP
**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

**3.2** Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

**3.3** Mae Tabl 1 yn dangos bydd angen i'r Cyngor fenthyg yn ystod y tair blynedd nesaf. Os yw hyn yn digwydd, defnyddir benthyca tymor byr er mwyn lleihau'r gyfradd llog.

**3.4** Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2019/20.


## 4. Meincnod Ymrwymiadau

**4.1** Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £20m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.

**Tabl 2: Meincnod Ymrwymiadau**

| | 31.3.18 Gwir £m | 31.3.19 Rhagolwg £m | 31.3.20 Rhagolwg £m | 31.3.21 Rhagolwg £m | 31.3.22 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| GCC | **177.0** | **177.6** | **175.5** | **172.7** | **169.1** |
| Llai: Cronfeydd | (56.2) | (41.2) | (39.2) | (35.2) | (33.2) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (48.0) | (48.0) | (48.0) | (48.0) | (48.0) |
| Plws: LleiaFswm | (37.1) | (21.2) | (19.1) | (16.3) | (16.3) |
| **Meincnod Ymrwymiadau** | **109.9** | **109.6** | **107.4** | **105.8** | **104.2** |

**4.2** Gan ddilyn o’r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio gwariant cyfalaf wedi’i ariannu gan fenthyciadau o £4m y flwyddyn, lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar gyfnod oes ased o 25 mlynedd a chynnydd chwyddiant o 2.5% y flwyddyn ar incwm, gwariant a reserfau. Dangosir hyn yn y siart isod:




Mae’r siart yn dangos bod benthyciadau yn llawer is na’r GCC a bod gan y Cyngor arian i fuddsoddi. Ar sail y tybiaethau nodir uchod, hwn yw’r sefyllfa sydd yn debygol o barhau yn y tymor hir.

## 5. Y Strategaeth Fenthyca

**5.1** Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn dal £106 miliwn o fenthyciadau, yr un lefel a diwedd y flwyddyn blaenorol, mae hyn fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen a welir yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthyca arian tymor hir yn 2019/20 ond efallai bydd angen benthyg tymor byr oherwydd rhesymau llif arian. Bydd y Cyngor hwyrach angen benthyca i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw, cyn belled nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca, sef £190 miliwn.

### 5.2 Amcanion

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

### 5.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthyca'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i un ai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg dros y tymor byr yn lle hynny.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthyca net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthyca mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2019/20 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen yn 2019/20, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddioddef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthyca benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

## 5.4 Ffynonellau benthyca

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ac unryw olynydd
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler paragraff 5.5 isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr marchnad cyfalaf
- Cwmnïau i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

## 5.5 Ffynonellau eraill arian dyled

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi derbyn mwyafrif o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond byddwn yn parhau i ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, gall fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

## 5.6 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

## 5.7 Aildrefnu dyledion

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymeryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

## 6. Y Strategaeth Fuddsoddi

**6.1** Mae gan y Cyngor arian wedi'i fuddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £79.4 a £17.6 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2019.

### 6.2 Amcanion

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir.

### 6.3 Cyfraddau llog negyddol

Pe bai'r DU yn mynd mewn i ddirwasgiad yn ystod 2019/20, mae siawns fechan y gall Banc Lloegr osod y Gyfradd Banc ar neu o dan sero, sydd yn debyg o fwydo drwodd i gyfraddau llog negyddol ar yr holl fuddsoddiadau tymor byr risg isel sydd ar gael. Mae'r sefyllfa yma yn bodoli yn llawer o wledydd Ewrop yn barod. Os yw hyn yn digwydd, bydd diogelwch yn cael ei fesur fel derbyn y swm cytundebol a fuddsoddwyd ar aeddfedrwydd, er gallai'r swm yma bod yn llai na fuddsoddwyd yn wreiddiol.

### 6.4 Strategaeth

Gyda'r cynnydd parhaus yn y risg ac enillion isel iawn o fuddsoddiadau byrdymor ansicredig banc, mae'r Cyngor yn bwriadu arallgyfeirio yn bellach i ddosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu gynnyrch uwch yn ystod 2019/20. Mae hyn yn benodol yr achos ar gyfer yr £10m amcangyfrifiedig sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hirach. Mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan y Cyngor wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n parhau'r strategaeth a fabwysiadwyd yn 2015/16.

**6.5 Modelau Busnes**

O dan y safon 9 IFRS mae’r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar “model busnes” y Cyngor i’w rheoli. Mae’r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli’n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae’r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

**6.6 Gwrthbartion cymeradwy**

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o’r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a’r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi’u Cymeradwyo a’r terfynau**

| **Cyfradd Credyd** | **Banciau Ansicredig** | **Banciau â Sicrwydd** | **Llywodraeth** | **Corfforaethau** | **Darparwyr Cofrestredig** |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth DU | d/b | d/b | £ diderfyn<br>50 mlynedd | d/b | d/b |
| AAA | 5% / £4m<br>5 mlynedd | 10% / £8m<br>20 mlynedd | 10% / £8m<br>50 mlynedd | 5% / £4m<br>20 mlynedd | 5% / £4m<br>20 mlynedd |
| AA+ | 5% / £4m<br>5 mlynedd | 10% / £8m<br>10 mlynedd | 10% / £8m<br>25 blynedd | 5% / £4m<br>10 blynedd | 5% / £4m<br>10 blynedd |
| AA | 5% / £4m<br>4 blynedd | 10% / £8m<br>5 mlynedd | 10% / £8m<br>15 blynedd | 5% / £4m<br>5 blynedd | 5% / £4m<br>10 blynedd |
| AA- | 5% / £4m<br>3 blynedd | 10% / £8m<br>4 blynedd | 10% / £8m<br>10 mlynedd | 5% / £4m<br>4 blynedd | 5% / £4m<br>10 blynedd |
| A+ | 5% / £4m<br>2 flynedd | 10% / £8m<br>3 blynedd | 5% / £8m<br>5 mlynedd | 5%<br>3 blynedd | 5% / £4m<br>5 blynedd |
| A | 5% / £4m<br>13 mis | 10% / £8m<br>2 flynedd | 5% / £8m<br>5 mlynedd | 5% / £4m<br>2 flynedd | 5% / £4m<br>5 blynedd |
| A- | 5% / £4m<br>6 mis | 10% / £8m<br>13 mis | 5% / £8m<br>5 mlynedd | 5% / £4m<br>13 mis | 5% / £4m<br>5 blynedd |
| Dim | £1m<br>6 mis | d/b | 10% / £8m<br>25 blynedd | £0.5m<br>5 mlynedd | 5% / £4m<br>5 mlynedd |
| **Cronfeydd wedi eu cyfuno a ymddirediolaethau buddsoddiadau eiddo** | 10% / £8m fesul cronfa neu ymddiriedolaeth | | | | |

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â’r nodiadau isod.

## 6.7 Statws Credyd

Gosodir cyfyngiadau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf sydd wedi'i gyhoeddi gan ddetholiad o asiantaethau graddio allanol. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartïon. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael ei gwneud ar sail cyfraddau credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

## 6.8 Banciau Ansicredig

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu.

## 6.9 Banciau â Sicrwydd

Bondiau gorchuddiedig, cytundebau adbrynu o chwith a threfniadau gyda sicrwydd cyfochrog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad, ac mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Os nad oes unrhyw statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, bydd statws credyd yn bodoli ar gyfer y sicrwydd cyfochrog sy'n sail i'r buddsoddiad. Defnyddir y statws uchaf o'r statws credyd sicrwydd cyfochrog a'r statws credyd gwrthbarti i benderfynu ar y cyfyngiadau o ran arian barod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

## 6.10 Llywodraeth

Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Ni fyddai'r buddsoddiadau yma yn destun *'bail-in'*, a bychan iawn yw'r risg o ansolfedd. Gellir gwneud buddsoddiadau gyda Llywodraeth Ganolog y DU gyda dim cyfyngiad am hyd at 50 mlynedd.

## 6.11 Corfforaethau

Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun *'bail-in'* ond maent yn agored i'r risg y gallai'r cwmni ddod yn fethdalwr. Mae benthyciadau i gwmnïau heb graddfa credyd ond yn cael ystyried yn dilyn asesiad credyd allanol neu uchafswm o £1 million mesul cwmni fel rhan o bŵl amrywiol er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

**6.12 Darparwyr cofrestredig**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi’u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio’n llym gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

**6.13 Cronfeydd wedi’u cyfuno**

Cyfranddaliadau neu unedau mewn dulliau buddsoddi amrywiol sy’n cynnwys unrhyw un o’r mathau a restrwyd uchod, ynghyd â chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Y fantais i’r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi’u gwasgaru’n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael drwy dalu ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Arian tymor byr sy’n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac anweddolrwydd isel neu dim o gwbl yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar unwaith, tra bydd cronfeydd wedi’u cyfuno ble mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau’r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod rhybudd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

**6.14 Cyfrifon banc gweithredol**

Gall y Cyngor ddelio gyda unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw’r rhain yn cael eu cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau ‘*bail-in’*, ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun *'bail-in'* na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

**6.15 Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro’r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda’r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy’n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn “*rating watch negative*” neu “*credit watch negative*”) fel y gall ddisgyn islaw’r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda’r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy’n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

## 6.16 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch duddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn deall bod graddfeydd statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol a dadansoddiad a chyngor gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 6.17 Buddsoddiadau penodedig

Mae Canllaw Llywodraeth Cymru yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:
- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n cael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
  - Llywodraeth y DU,
  - awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
  - gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd gyda chyfradd credyd A- neu uwch.

## 6.18 Buddsoddiadau Amhenodedig

Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad tramor na un wedi ei ddiffinio fel buddsoddiad cyfalaf. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £30m |
| Cyfanswm buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na A- (heblaw Llywodraeth y DU ac Awdurdodau Lleol y DU) | £8m |
| Cyfanswm buddsoddiadau (heblaw cronfeydd cyfunedig) mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na AA+ | £4m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £24m |

**6.19 Cyfyngiadau Buddsoddi**

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £41 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2019 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 20% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffygdalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthyca i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £8 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o fanciau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol. Bydd terfynau yn cael eu rhoi ar reolwyr cronfa, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai brocers, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfunedig a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad tramor unigol, gan fod y risg yn cael ei rannu dros nifer o wledydd.

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth Ganolog y DU | £8m yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un perchnogaeth | £8m fesul grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth | £20m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £40m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £8m fesul gwlad |
| Darparwyr cofrestredig a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig | Cyfanswm o £20m |
| Buddsoddiadau ansicredig gyda chymdeithasau adeiladu | Cyfanswm o £8m |
| Benthyciadau i gorfforaethau heb eu raddio | Cyfanswm o £8m |
| Cronfeydd marchnad arian | Cyfanswm o £40m |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | Cyfanswm o £20m |

### 6.20 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymiadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canol a rhagolwg llif arian y Cyngor.

## 7. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### 7.1 Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| Dangosydd risg credyd | Targed |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0 |

### 7.2 Hylifedd

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

| Dangosydd risg hylifedd | Targed |
|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m |

### 7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Yr effaith refeniw ar gyfyngiadau uwch dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

| Dangosydd risg cyfradd llog | Cyfyngiad |
|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn codiad 1% yng nghyfraddau llog | £761,000 |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda cwymp o 1% yng nghyfraddau llog | £0 |

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llôg ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau cyfredol.

## 7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

| Dangosydd risg cyfradd ail gyllido | Cyfyngiad Uchaf | Cyfyngiad Isaf |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

## 7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na flwyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |

## 8. Materion Cysylltiedig

**8.1** Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

## 8.2 Cytundebau Deilliadau

Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd y Cyngor yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol a risg cyffredinol y strategaeth rheolaeth trysorlys.

## 8.3 Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

## 9. Arweiniad Llywodraeth Cymru

### 9.1 Hyfforddiant Buddsoddi

Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys y Cyngor am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, Cymdeithas Trysoryddion Corfforaethol a sefydliadau priodol eraill.

### 9.2 Ymgynghorwyr Buddsoddi

Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

### 9.3 Buddsoddi Arian a Fenthyciwyd cyn i'r Angen Godi

O bryd i'w gilydd, hwyrach y bydd y Cyngor yn benthyca arian cyn i'r angen godi, pan ddisgwylir mai hyn fydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn y tymor hir. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes caiff yr arian ei wario, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthyciwyd, a'r risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol y Cyngor o'i risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £190 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwario'r arian, serch hyn, nid oes gofyn i'r Awdurdod gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

## 10. Goblygiadau Ariannol

**10.1** Y gyllideb ar gyfer yr incwm buddsoddi yn 2019/20 yw £0.2 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £22 miliwn ar gyfradd llog o 0.88%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2019/20 yw £6.0 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £106.6 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.62%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

## 11. Ystyried Opsiynau Eraill

**11.1** Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chôd CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau o ran rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm ar y llôg yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrth bartïon ac/neu am gyfnodau hirach | Bydd incwm ar y llôg yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llôg sefydlog hirdymor | Bydd costau llôg dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llôg hirdymor yn fwy sicr |
| Cymeryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llôg dyledion yn is i gychwyn | Bydd y cynnydd yn y costau llôg ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae'r arbediad ar lôg y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr |

**Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llôg Arlingclose, Rhagfyr 2018**

**Rhagdybiaethau sylfaenol:**

- Mae ein rhagamcanion cyfradd llog canolog wedi'u cyfrifo ar y sail fod yna gyfnod trosglwyddo wedi i'r DU adael yr UE yn ffurfiol.

- Mae gan y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) duedd bendant tuag at bolisi ariannol tynnach ond mae'n gyndyn o wthio disgwyliadau cyfraddau llog yn rhy gryf. Credwn fod aelodau MPC yn ystyried: 1) y bydd marchnadoedd llafur tynn yn annog pwysau chwyddiannol yn y dyfodol, 2) y bydd cyfraddau llog isel iawn yn arwain at broblemau economaidd eraill a 3) bod Cyfradd Banc uwch yn arf fwy effeithiol pe byddai risgiau twf negyddol yn cael eu crisialu.

- Yn sgil y rhagamcanion a'r cynnydd ym maint y risgiau gwleidyddol ac economaidd y mae economi'r DU yn eu hwynebu, rydym yn parhau â risgiau negyddol sylweddol i'n rhagamcanion, er gwaethaf y posibilrwydd o dwf ychydig yn gryfach flwyddyn nesaf wrth i fuddsoddiad busnes adlamu pe bai'r Cytundeb i Adael yr UE yn cael ei gymeradwyo. Mae'r posibilrwydd o ganlyniadau economaidd difrifol wedi cynyddu yn dilyn ymateb gwael yr Aelodau Seneddol i'r Cytundeb Gadael. Disgwyliwn i Fanc Lloegr gadw neu ostwng cyfraddau llog o'r lefelau cyfredol os yw risgiau Brexit yn dod i'r fei.

- Mae amgylchedd economi’r DU yn gymharol feddal, er gwaethaf data marchnad lafur sy'n ymddangos yn gryf. Adferwyd twf GDP rhywfaint yng chwarteri canol 2018, ond mae data mwy diweddar yn awgrymu fod yr economi wedi arafu'n sylweddol yn Ch4. Y farn yw bod economi'r DU yn parhau i wynebu rhagolygon heriol wrth i'r wlad adael yr Undeb Ewropeaidd ac wrth i dwf economaidd yr Ardal yr Ewro feddalu.

- Mae pwysau côst yn esmwytho ond rhagwelir y bydd chwyddiant yn aros yn uwch na tharged 2% y Banc am y rhan fwyaf o'r cyfnod rhagolwg. Mae prisiau olew is wedi gostwng pwysau chwyddiant, ond golyga’r farchnad lafur tyn a'r lleihad yng ngwerth y bunt y gall chwyddiant aros yn uwch na'r targed am yn hwy na'r disgwyl.

- Mae twf economaidd byd-eang yn arafu. Er gwaethaf y twf arafach, mae Banc Canolog Ewrop yn paratoi marchnadoedd ar gyfer diwedd QE, amseriad y cynnydd cyntaf yn y gyfradd (2019) a'u trywydd wedi hynny. Mae data mwy diweddar o UDA wedi rhoi'r Gronfa Ffederal dan bwysau i leihau cyflymder y tynhau ariannol - fodd bynnag, bydd cynnydd blaenorol a disgwyliadau uwch yn arafu twf economaidd.

- Mae gweithredoedd y banc canolog a risgiau gwleidyddol wedi arwain at amodau cyfnewidiol iawn yn y marchnadoedd ariannol, yn cynnwys y marchnadoedd bond, a byddant yn parhau i wneud hynny.

## Rhagolygon

- Mae'r MPC wedi cynnal disgwyliadau o gynnydd araf mewn cyfraddau llôg dros y gorwel a ragwelir, ond mae digwyddiadau diweddar ynghylch Brexit wedi lleihau disgwyliadau cyfraddau llôg. Ein hachos canolog yw y bydd y Gyfradd Banc yn cynyddu ddwywaith yn 2019, wedi i'r DU adael yr UE. Mae risgiau'n parhau ar yr ochr negyddol.

- Mae enillion Gilt wedi parhau ar lefelau isel. Rydym yn disgwyl gweld lefelau presennol yn codi, yn seiliedig ar ein hachos canolog y bydd y DU yn mynd i gyfnod trosglwyddo wedi iddi adael yr UE yn ffurfiol ym mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, bydd ein rhagolygon economaidd gwan a'r amodau cyfnewidiol yn sgil digwyddiadau economaidd a gwleidyddol yn parhau i gynnig cyfleoedd benthyca.

| | Dec-18 | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 | Dec-21 | Average |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Official Bank Rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | **0.17** |
| Arlingclose Central Case | **0.75** | **1.00** | **1.00** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.17** |
| Downside risk | 0.00 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | **0.65** |
| **3-mth money market rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.15 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | 0.20 | **0.17** |
| Arlingclose Central Case | **0.80** | **1.00** | **1.10** | **1.20** | **1.30** | **1.30** | **1.25** | **1.20** | **1.20** | **1.20** | **1.20** | **1.20** | **1.20** | **1.17** |
| Downside risk | 0.20 | 0.50 | 0.60 | 0.70 | 0.80 | 0.80 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | **0.68** |
| **1-yr money market rate** | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | **0.33** |
| Arlingclose Central Case | **1.05** | **1.25** | **1.35** | **1.40** | **1.50** | **1.45** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.40** | **1.37** |
| Downside risk | 0.35 | 0.50 | 0.60 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | **0.69** |
| **5-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.15 | 0.20 | 0.25 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **1.15** | **1.20** | **1.25** | **1.35** | **1.40** | **1.40** | **1.35** | **1.35** | **1.30** | **1.30** | **1.30** | **1.30** | **1.30** | **1.30** |
| Downside risk | 0.30 | 0.35 | 0.45 | 0.50 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | **0.54** |
| **10-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **1.60** | **1.65** | **1.65** | **1.70** | **1.75** | **1.75** | **1.75** | **1.70** | **1.70** | **1.70** | **1.70** | **1.70** | **1.70** | **1.70** |
| Downside risk | 0.30 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | **0.55** |
| **20-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **1.90** | **1.95** | **1.95** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **2.00** | **1.98** |
| Downside risk | 0.30 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | **0.43** |
| **50-yr gilt yield** | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **1.80** | **1.85** | **1.85** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.90** | **1.88** |
| Downside risk | 0.30 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | **0.43** |

**PWLB Certainty Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.80%**
**PWLB Local Infrastructure Rate (Maturity Loans) = Gilt yield + 0.60%**